**Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg ECO4 a GBIS (Great British Insulation Scheme) Cyngor Sir y Fflint**

**Dyddiad Cyhoeddi: 14/08/2025**

Rhif Fersiwn: F.4

**Cyhoeddi ar y wefan: www.flintshire.gov.uk**

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) o Awst 2022 - Mawrth 2026.

Fe fydd y cynllun ECO4 yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd ag incwm isel ac aelwydydd diamddiffyn. Fe fydd y cynllun yn gwella'r cartrefi sydd leiaf effeithlon o ran ynni gan helpu i fodloni ymrwymiadau tlodi tanwydd a sero net y Llywodraeth. Bydd y Great British Insulation Scheme yn cynorthwyo'r cynllun ECO4 trwy ddosbarthu mesurau unigol ar gyfer amrediad lled o dai.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn croesawu cyflwyno'r llwybrau cymhwysedd hyblyg ECO4 gan ei fod yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau i wella cartrefi'r rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd neu sy'n agored i'r oerfel.

Mae'r Cyngor wedi gweithio ers nifer o flynyddoedd ar brosiectau i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd a hynny ar draws y sir ond noder fod y penderfyniad terfynol ynglŷn â ph'run ai a yw deiliad yn derbyn mesur Rhwymedigaeth Cwmni Ynni yn cael ei wneud gan y cyflenwr ynni dan rwymedigaeth neu eu hasiantiaid/contractwyr ac ni all Cyngor Sir y Fflint sicrhau gweithredu'r mesurau.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad hwn (DoF), ar y 14/08/2025 i gadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd a nodwyd yn glynu at o leiaf un o'r pedwar llwybr sydd ar gael a amlinellir isod:

**Llwybr 1:** Aelwydydd sy’n cael eu rhentu’n breifat ym mandiau SAP E-G neu aelwydydd perchen-feddianwyr ym mandiau SAP D-G sydd ag incwm o lai na £31,000. Mae’r cap hwn yn berthnasol waeth beth fo maint, cyfansoddiad neu ranbarth yr eiddo.

**Llwybr 2:** Aelwydydd sy’n cael eu rhentu’n breifat neu aelwydydd perchen-feddianwyr ym mandiau SAP E-G sy’n bodloni cyfuniad o ddau o’r procsis canlynol:



| |
|---|
| **Procsi 1)** Cartrefi mewn darpariaeth Gymreig LSOA 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 [i] |
| **Procsi 2)** Aelwydydd sy’n cael gostyngiad treth y cyngor (gostyngiadau ar sail incwm isel yn unig, nid yw’n cynnwys gostyngiadau unigolion sengl). |
| **Procsi 3)** Deiliaid sy’n agored i fyw mewn cartref oer fel y nodir yng Nghanllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Dim ond un o’r rhestr all gael ei ddefnyddio, nid yw’n cynnwys y procsi ‘incwm isel’. |
| **Procsi 4)** Deiliad sy’n derbyn prydau ysgol am ddim o ganlyniad i incwm isel. |
| **Procsi 5)** Deiliad a gefnogir gan gynllun a gaiff ei weithredu gan Gyngor Sir y Fflint, sydd wedi ei enwi a’i ddisgrifio gan y Cyngor fel un sy’n cefnogi aelwydydd incwm isel ac aelwydydd diamddiffyn i ddibenion Canllawiau NICE. |
| **Procsi 6)** Aelwyd a gyfeiriwyd at y Cyngor am gefnogaeth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth gan eu bod wedi eu nodi fel aelwyd sy’n ei chael yn anodd i dalu eu biliau trydan a nwy. (O dan adolygiad ar hyn o bryd) |

* Noder na all procsis 1 a 3 gael eu defnyddio gyda’i gilydd. [1]

**Llwybr 3:** Aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat ym mandiau SAP E-G neu aelwydydd perchen-feddianwyr ym mandiau SAP D-G sydd wedi'u nodi naill ai gan unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol, Bwrdd Iechyd yr Alban, Bwrdd Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG yn aelwyd ddiamddiffyn, sydd â phreswylydd y gallai ei gyflwr iechyd gael ei effeithio ymhellach drwy fyw mewn cartref oer. Gall

[1] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad Mynegai llawn gyda safleoedd): 2019 | GOV.WALES

y cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthimiwnedd, neu'n ymwneud ag anawsterau symud.

**<u>Tystiolaeth, monitro ac adrodd</u>**

Fe fydd angen i'r holl osodwyr sy'n gweithio o dan y cytundeb hwn gadarnhau cymhwysedd eiddo a/neu ei ddeiliaid ar gyfer ECO4: FLEX a'r Great British Insulation Scheme. Mae gofyn i breswylwyr gwblhau ffurflen asesu.

Fe fydd angen i'r holl osodwyr sy'n gweithio o dan y cytundeb hwn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Sir y Fflint a dylent fod wedi talu am eu cais cyn i unrhyw fesurau fod wedi eu gosod a'r arbedion ynni yn cael eu hadrodd i'r Cyngor yn chwarterol.
Mae'n rhaid i'r holl ddatganiadau a ddelir gan y gosodwyr gyd-fynd â'r datganiadau a anfonnir gan Gyngor Sir y Fflint i Ofgem.
Mae'n rhaid i'r gosodwyr gadw'r holl brawf o gymhwysedd ar gyfer y llwybr cyfeirio a ddewisiwyd i ddibenion archwilio yn ddiweddarach.

**Fe fydd yn rhaid i osodwyr a oedd wedi cofrestru yn gynharach gyda RMBC ar gyfer ECO3 ailymgeisio ar gyfer ECO4** a darparu'r dogfennau canlynol i'w cadw ar gofnod gan Gyngor Sir y Fflint:

- Achrediad PAS 2030:2019
- Cofrestriad Trustmark
- Achrediad MCS

Mae'n rhaid i'r holl osodwyr ddefnyddio'r ffurflen gais a ddarperir gan Gyngor Sir y Fflint. Ni fydd unrhyw gais yn cael ei dderbyn ac eithrio'r ffurflenni a ddarperir ac mae'n rhaid i'r ffurflenni gael eu llenwi'n gywir ac yn glir i osgoi ceisiadau annilys.

**Fe all unrhyw osodwr y canfyddir ei fod yn defnyddio tactegau gwerthu a bennwyd yn anfoesol/camarweiniol gan y Cyngor weld ei ddatganiadau a'i waith drwy ECO-4 flex a/neu GBIS yn Sir y Fflint yn cael eu hatal.**

**Cadarnhad o wiriad tystiolaeth a datganiad**

Fe ddylai'r holl aelwydydd a all fod yn gymwys ymgeisio drwy un o'u gosodwyr ECO a gymeradwywyd i sicrhau y gallant un ai elwa o'r cynllun neu gael eu hasesu ar gyfer cymhwysedd o dan unrhyw raglen berthnasol arall.

Fe fydd y swyddog isod yn gyfrifol am wirio a chadarnhau datganiadau a thystiolaeth gysylltiedig a gyflwynwyd ar ran yr awdurdod lleol.

**Enw:** Joseph Muxlow

**Teitl Swydd:** Rheolwr Adfywio Tai

**Rhif Ffôn:** 01352 703426

**E-bost:** joseph.muxlow@flintshire.gov.uk

**Enw:** Shelley Webber

**Teitl Swydd:** Cydlynydd Prosiectau Ynni

**Rhif Ffôn:** 01352 701667

**E-bost:** shelley.webber@flintshire.gov.uk

**Llofnod Prif Swyddog Gweithredol neu unigolyn cyfrifol dynodedig**

Fe fydd Cyngor Sir y Fflint yn gweinyddu'r cynllun yn unol â Gorchymyn ECO4 yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a bydd yn nodi aelwydydd cymwys drwy broses gais Ofgem. Bydd Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys o dan ECO4 Flex a'r Great British Insulation Scheme.

Fe fydd y wybodaeth ar gymhwysedd yn cael ei chadw'n ddiogel yn unol â pholisi diogelu data y Cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanllawiau'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

**Llofnod:** 

**Enw:** Andrew Farrow

**Teitl Swydd:** Prif Swyddog Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi

**Dyddiad y Llofnod:** 14/08/2025

Ar gyfer unrhyw ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r Datganiad o Fwriad hwn, cysylltwch â DEEPadmin@flintshire.gov.uk.